UCAS

# PENNOD NESAF UCAS


## 2025+




## MAE PAWB A ALLAI ELWA O ADDYSG UWCH YN GWNEUD HYNNY

# CHWALU RHWYSTRAU I ADDYSG UWCH

Mae'r rhesymau pam nad yw myfyrwyr yn symud ymlaen i astudiaethau israddedig yn gymhleth, yn amrywio o ddiffyg dealltwriaeth o'r opsiynau sydd ar gael iddyn nhw, cyrhaeddiad, neu anghydraddoldebau o ran mynediad at wybodaeth a chyngor o ansawdd uchel. **Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar gynnig mwy o gymorth i'r myfyrwyr hyn fel bod pawb a allai elwa o addysg uwch yn gwneud hynny.**



**1M+** YN COFRESTRU

Bob blwyddyn, mae dros filiwn o fyfyrwyr yn cofrestru gydag UCAS i ddechrau'r cam nesaf hwnnw tuag at addysg uwch

**750K** (-400K)


Nid yw 400k o fyfyrwyr yn cyrraedd y cam cyflwyno cais

**700K** (-50K)

Nid yw 50k yn derbyn cynnig — gan fwyaf, myfyrwyr aeddfed neu ryngwladol gyda dewisiadau cyfyngedig

**560K**
(-140K)

Bob blwyddyn, mae 140k heb le ar gwrs israddedig ac yn gymwys i gael lle drwy'r broses glirio



"MAE SICRHAU BOD MWY O FYFYRWYR YN GALLU CAEL MYNEDIAD AT GYFLEOEDD TRAWSNEWIDIOL YMHLITH SEFYDLIADAU O'R RADD FLAENAF YN Y DU WRTH WRAIDD RÔL UCAS FEL Y CYDWASANAETH DERBYNIADAU CENEDLAETHOL. EDRYCHAF YMLAEN AT WEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â PHRIFYSGOLION, COLEGAU AC YSGOLION I CHWALU RHWYSTRAU FEL BOD PAWB A ALLAI ELWA O ADDYSG UWCH YN GWNEUD HYNNY."



**Dr Jo Saxton CBE**
Prif Swyddog Gweithredol, UCAS

# ROL UCAS YN NHIRLUN ADDYSG UWCH

## BOB CYLCH MAE UCAS YN CEFNOGI:

- **350+** O BRIFYSGOLION A CHOLEGAU
- **DROS 7,000** O ATHRAWON AC YMGYNGHORWYR
- **DROS FILIWN** O FYFYRWYR I ARCHWILIO EU HOPSIYNAU

## CEIR 750,000 O YMGEISWYR, LLE MAE:

- **43%** YN 18 OED O'R DU
- **UN O BOB PEDWAR** DROS 21 OED
- **150,000** YN GWNEUD CAIS O DROS 200 O WLEDYDD A THIRIOGAETHAU LEDLED Y BYD AR GYFER Y PEDAIR GWLAD



# DNA UCAS

MAE GAN UCAS DDAU UCHELGAIS CRAIDD SY'N PLETHU A'I GILYDD AC NA ELLIR EU GWAHANU - MAE'R HELICS DWBL HWN YN FFURFIO DNA UCAS AC YN GANOLOG I'N STRATEGAETH:

**Cefnogi'r sector i gynyddu cyfranogiad a llwyddiant myfyrwyr**

**Cyflwyno mwy o werth fel cydwasanaeth derbyniadau y DU**

Bydd popeth y mae UCAS yn ei wneud yn ceisio cefnogi'r uchelgeisiau hyn, a chawn ein llywio gan ein hegwyddorion:

- **Gwasanaethu'r pedair gwlad**
- **Bod yn agnostic o ran sefydliadau a llwybrau**
- **Hyrwyddo'r myfyriwr**
- **Ysgogi gwerth ac effeithlonrwydd**
- **Cefnogi tegwch a thryloywder**

# PWRPAS ELUSENNOL:

## I WEITHREDU FEL CYDWASANAETH DERBYNIADAU Y DU

# GWELEDIGAETH:

## MAE PAWB A ALLAI ELWA O ADDYSG UWCH YN GWNEUD HYNNY


UCAS DISCOVERY UK TOUR
THE BIG Q&A
YOUR QUESTIONS
PICK UP


WELCOME TO

# CHWALU RHWYSTRAU

- Bob blwyddyn, mae dros **filiwn o fyfyrwyr yn cofrestru** gydag UCAS i ddechrau'r cam nesaf hwnnw tuag at addysg uwch. Serch hynny, nid oes **400,000** yn cyrraedd y cam cyflwyno cais

- **Mae 750,000 o fyfyrwyr yn gwneud cais** a 50,000 ddim yn derbyn cynnig

- **Mae 560,000 o fyfyrwyr** mewn astudiaethau israddedig bob blwyddyn

- Dim ond **20%** o fyfyrwyr a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim sy'n mynd ymlaen i addysg uwch, o'i gymharu â **37%** o'r boblogaeth ehangach

- Mae dros **hanner y rhai 18 oed yn Llundain** yn symud ymlaen i addysg uwch, o'i gymharu â llai nag **1 o bob 3 yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr a Chymru**

- Mae **1 o bob 5 yn cau'r** drws ar gwrs y maen nhw'n ymddiddori ynddo oherwydd eu dewis o gymhwyster a phwnc yn yr ysgol neu'r coleg

- Mae'r rhesymau dros y rhain yn gymhleth, ac yn amrywio o ddiffyg dealltwriaeth o'r opsiynau sydd ar gael i rwystrau cyrhaeddiad neu anghydraddoldebau wrth gael mynediad at wybodaeth a chyngor o ansawdd uchel

- Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar wella'r gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr, gan ei gwneud hi'n haws i brifysgolion a cholegau gysylltu â nhw. Yn y pendraw bydd hyn yn galluogi mwy ohonynt i elwa o'r profiadau arbennig y mae Addysg Uwch yn y Deyrnas Unedig yn ei gynnig.

# EFFAITH
# HEPGOR PRYDAU YSGOL AM DDIM

Mae costau byw ac ystyriaethau ariannol yn llywio dewisiadau myfyrwyr fwyfwy.

Ar gyfer cylch derbyniadau 2025, tynnodd UCAS y ffi ymgeisio i fyfyrwyr a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim yn ystod y chwe blynedd ddiwethaf.

O Ionawr 2025, mae dros 30,000 o fyfyrwyr wedi elwa.

- Dywedodd **57%** o fyfyrwyr a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim fod **hepgor y ffi wedi eu gwneud yn fwy tebygol o wneud cais**
- Roedd **66%** o fyfyrwyr **POLAR Ch1** a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o wneud cais
- Dywedodd **67%** o'r rheini a nododd fod costau byw cynyddol wedi eu gwneud yn llai tebygol o fynd i'r brifysgol **fod hepgor y ffi wedi eu gwneud yn fwy tebygol o wneud cais**



> **"DRWY GAEL GWARED AR Y FFI GWNEUD CAIS AR GYFER MYFYRWYR SYDD YN CAEL PRYDAU YSGOL AM DDIM, MAE UCAS WEDI STOPIO ARIAN RHAG BOD YN RHWYSTR SEICOLEGOL I FYFYRWYR."**
>
> Dan Morrow, Prif Swyddog Gweithredol ac arweinydd Ymddiriedolaeth Aml-academi Dartmoor

# NOD UCAS YW CEFNOGI'R SECTOR WRTH GYNYDDU CYFRANOGIAD A LLWYDDIANT MYFYRWYR TRA'N DARPARU MWY O WERTH FEL CYDWASANAETH DERBYNIADAU Y DU. BYDDWN YN CYFLAWNI HYN DRWY BEDWAR AMCAN STRATEGOL:



1

## CYFLWYNO CYDWASANAETHAU DERBYNIADAU SY'N ESMWYTH AC YN HYBLYG

**Sefydlu proses dderbyn ddigidol a arweinir gan ddata.**

- Cynnwys rhagor o wybodaeth sydd wedi eu llenwi a'u gwirio ymlaen llaw yn y cais er mwyn hwyluso pethau i fyfyrwyr, ysgolion, colegau a phrifysgolion
- Gwneud y broses glirio yn fwy digidol
- Cynnig amrywiaeth o ddyddiadau dechrau a galluogi dysgu gydol oes



## 2

# CREU LLWYBRAU WEDI'U PERSONOLI I SICRHAU CHWARAE TEG

**Sicrhau bod y gefnogaeth y mae UCAS yn ei rhoi i bob myfyriwr wedi ei theilwra i'w anghenion unigryw nhw.**

- Rhoi cefnogaeth wedi ei theilwra i'r myfyrwyr ar bob cam o'r daith
- Rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ymgysylltu'n gynharach gydag UCAS er mwyn cynorthwyo myfyrwyr gyda phenderfyniadau pwysig fel cymwysterau a dewis pynciau
- Cynnwys wedi ei deilwra er mwyn annog myfyrwyr sydd dan anfantais i wneud cais a chodi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael



## 3

# RHOI ADNODDAU I GEFNOGWYR WIREDDU BREUDDWYDION

**Sicrhau bod UCAS yn rhoi'r offer digidol sydd eu hangen ar athrawon, rhieni a gofalwyr i helpu'r myfyrwyr i lwyddo.**

- Creu porth cynghori ehangach er mwyn galluogi ysgolion a cholegau i fonitro cynnydd eu disgyblion yn well
- Cyflwyno proses ymgeisio sy'n fwy didrafferth er mwyn creu arbedion effeithlonrwydd mewn ysgolion a cholegau
- Grymuso rhieni a gofalwyr fel bod modd iddynt gefnogi myfyrwyr ar bob cam o'r ffordd



## 4

# TRAWSNEWID DATA AMRWD YN FEWNWELEDIADAU GO IAWN

**Rhoi mwy o wybodaeth i gefnogi penderfyniadau strategol mewn prifysgolion a cholegau.**

- Mae ymgysylltu'n gynt â myfyrwyr yn darparu darlun mwy llawn o'u cynnydd
- Mae data UCAS yn hwyluso ac yn gwneud y broses o ddewis y myfyrwyr cywir yn fwy effeithlon
- Cefnogi'r sector wrth iddynt fynd i'r afael â rhwystrau rhag gwneud cynnydd drwy gael mwy o wybodaeth










# #WEAREUCAS

**Mae'r gwerthoedd hyn yn llywio ein staff wrth ddarparu ar gyfer buddiolwyr UCAS:**

- Canolbwyntio ar fuddiolwyr a chwsmeriaid
- Atebolrwydd
- Ymddiriedaeth
- Arbenigedd










UCAS

# PENNOD NESAF UCAS

| PWRPAS ELUSENNOL | GWELEDIGAETH |
|---|---|
| Gweithredu fel cydwasanaeth derbyniadau y DU | Mae pawb a allai elwa o addysg uwch yn gwneud hynny |

Cefnogi darpar fyfyrwyr o 8 i 80

## BLAENORIAETHAU DEUOL: HELICS DWBL

- Cefnogi'r sector wrth gynyddu cyfranogiad a llwyddiant myfyrwyr
- Darparu mwy o werth fel cydwasanaeth derbyniadau y DU

## EGWYDDORION GWEITHREDU

- Gwasanaethu'r pedair gwlad
- Bod yn agnostig o ran sefydliadau a llwybrau
- Hyrwyddo'r myfyriwr
- Ysgogi gwerth ac effeithlonrwydd
- Cefnogi tegwch a thryloywder

## AMCANION STRATEGOL

- Cyflwyno cydwasanaethau derbyniadau sy'n esmwyth ac yn hyblyg
- Creu llwybrau wedi'u personoli  i sicrhau chwarae teg
- Rhoi adnoddau i gefnogwyr wireddu breuddwydion
- Trawsnewid data amrwd yn fewnwelediadau go iawn

UCAS